# Arwain 2013

Prifysgol Abertawe
Swansea University



## Archdderwydd eisiau ysbrydoli

Mae Christine James wrth ei bodd gyda'r gefnogaeth y mae wedi ei chael ers cael ei gwneud yn Archdderwydd.

Yr uwch ddarlithydd Cymraeg yn Academi Hywel Teifi yw'r fenyw gynta' erioed i ddal y swydd ac fe gafodd ei hurddo'n ffurfiol ym mis Gorffennaf eleni adeg cyhoeddi Eisteddfod y flwyddyn nesa'.

Mae hefyd yn gobeithio y bydd y cyhoeddusrwydd yn hwb i fenywod eraill ac i lawer o fyfyrwyr Academi Hywel Teifi sydd, fel hi, yn siaradwyr Cymraeg ail iaith.

"Rwy'n gobeithio y bydd y cyhoeddusrwydd sy'n cyd-fynd â swydd Archdderwydd Cymru yn rhoi amlygrwydd hefyd i fy ngwaith bob dydd yn academydd sy'n arbenigo yn y Gymraeg," meddai.

"Dw i'n gobeithio y daw rhyw les i'r ddisgyblaeth yn sgil hynny, nid yn unig ym Mhrifysgol Abertawe ond hefyd yn fwy cyffredinol.

"Mae cyfran uchel o'r myfyrwyr sy'n astudio'r Gymraeg yn Academi Hywel Teifi yn dod o gefndir ail-iaith. Rwy'n gobeithio y bydd y ffaith i minnau ddod o'r un cefndir ieithyddol yn union yn dangos yn glir bod y Gymraeg, o'i meistroli, yn agor drysau ar bob math o brofiadau diddorol a chyffrous."

"Mae'r ymateb cynnes, o bob cyfeiriad, i'r ffaith bod merch wedi ei gorseddu'n Archdderwydd Cymru am y tro cyntaf erioed, wedi bod yn hwb mawr i mi yn bersonol," meddai.

"Roedd y profiad o sefyll ar ben y maen llog ac arwain Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Sir Gâr 2014 yn un gwefreiddiol.



**Iolo a natur Prifysgol**



**Gwobr rhyngwladol am ymchwil**



**Rhoi lle amlwg i wyddoniaeth**



**Rhannu profiad tros y byd**

## Abertawe'n dringo'r tablau

Abertawe yw'r Brifysgol sydd wedi dringo fwyaf yng Nghymru yng nghynghrair y prifysgolion.

Mae hi hefyd yn un o'r pedwar sefydliad sydd wedi gwneud y cynnydd mwyaf trwy wledydd Prydain i gyd yn ôl Canllaw Prifysgolion y Guardian.

Mae cyfrol 2014 yn dangos bod Prifysgol Abertawe wedi neidio 34 safle yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, gan godi i blith y 60 ucha' yn y rhestr o 120 o brifysgolion.

- Fe sgoriodd Abertawe'n arbennig o dda yn y categori lle'r oedd myfyrwyr yn rhoi barn am safon yr addysg, a'r boddhad cyffredinol a gawson nhw yn ystod eu cyfnod yn y Brifysgol.
- Roedd naid mwy fyth yn safle'r Brifysgol ym maes chwaraeon – o'r 40fed safle i'r 5ed – a hynny'n glod i'r cyfleusterau, yr addysg a'r gweithgareddau.
- Roedd yna sgôr uchel hefyd o ran y rhagolygon o gael gwaith ar ôl graddio – arwydd o lwyddiant darpariaeth newydd y Brifysgol ym maes cyflogadwyedd.

O fewn chwe mis i raddio o Brifysgol Abertawe, mae 93% o'r graddedigion yn cael gwaith llawn amser, neu'n mynd yn eu blaenau i astudiaethau pellach.

*'Prifysgol Abertawe – ar frig y don!'*

## Natur prifysgol

Fe ddaeth y naturiaethwr a'r cyflwynydd teledu, Iolo Williams, i Brifysgol Abertawe i agor llwybr natur newydd.

Y bwriad yw annog staff, myfyrwyr ac ymwelwyr i astudio'r amrywiaeth o gynefinoedd naturiol sydd ar gampws Singleton – mae'r rheiny'n cynnwys coetiroedd, pyllau dŵr, cors a gardd ffurfiol.

"Mae hi mor bwysig fod pawb yn codi oddi wrth y cyfrifiadur o leia' unwaith y dydd, hyd yn oed am bum munud, er mwyn mynd allan," meddai Iolo Williams.

"Mae'n gwneud byd o les i iechyd ac i'r meddwl. A dyna be' mae byd natur yn wneud – mae'n rhoi cyfle i bobol fynd allan a gwerthfawrogi sut mae pob peth yn gweithio."

Mae Adran Gynaladwyedd y Brifysgol, dan arweiniad Dr Heidi Smith, wedi datblygu mapiau a thaflenni er mwyn arwain pobol o gwmpas y llwybr, ac mae chwech o fyrddau gwybodaeth yn rhoi'r holl wybodaeth am fywyd gwyllt y safle.

Mae'r Brifysgol hefyd yn gwneud ei rhan wrth gynnal yr amgylchedd gan ennill gwobrau am ei gwaith, sy'n cynnwys cynllun i roi benthyg beiciau am ddim i staff a myfyrwyr, cynlluniau rheoli carbon a chynnwys darpariaethau 'gwyrdd' mewn adeiladau newydd.




# Campws newydd

## – cam anferth ymlaen



Mae'r gwaith ar un o'r datblygiadau mwya'yn hanes Prifysgol Abertawe yn prysuro a'r disgwyl yw y bydd campws newydd sbon wedi agor erbyn 2015.

Fel rhan o'r datblygiad cyffrous hwn, bydd campws Singleton y brifysgol yn cael ei drawsnewid a'r Campws Gwyddoniaeth ac Arloesedd newydd am gyfrannu at weddnewid economi de-orllewin Cymru.

Yn ogystal â chefnogi tua 10,000 o swyddi adeg y cyfnod adeiladu, fe fydd y campws newydd yn cynnal tua 4,000 o swyddi parhaol ac yn cyfrannu cymaint â £3 biliwn at yr economi tros gyfnod o ddeng mlynedd.

Mae'r Brifysgol yn cydweithio gyda rhai o gwmnïau mawr y byd ac mae'r datblygiad wedi cael ei groesawu'n gynnes gan fudiadau busnes, fel CBI Cymru.

Fe fydd y campws newydd ar ochr ddwyreiniol y ddinas lle bydd yn meddiannu 65 erw rhwng Heol Fabian a'r traeth. Bydd y datblygiad newydd hwn yn galluogi'r brifysgol i greu partneriaethau newydd rhwng y byd academaidd a diwydiant gan adeiladu ar enw rhyngwladol Prifysgol Abertawe mewn arloesi, gwyddoniaeth a thechnoleg.

Gyda'r gwaith ar Gam 1 wedi ei gwblhau, sef harddu mannau cyhoeddus ar gampws Singleton, codi adeilad newydd i'r Sefydliad Gwyddor Bywyd 2, a gwella perfformiad ynni ac ymddangosiad adeiladau fel Tŵr Faraday, Adeilad Keir Hardie a Thŷ Fulton, y gobaith yw y bydd Cam 2 – y campws newydd – yn barod erbyn haf 2015.

**Bydd adnoddau a chyfleusterau'r campws newydd yn cynnwys:**

- **Cyfleusterau Myfyrwyr** gan gynnwys awditoriwm, safle manwerthu, cyfleusterau hamdden a chwaraeon a mynediad at y traeth;
- **Canolfan Ddysgu ac Adnoddau** cyfleusterau llyfrgell ac adnoddau cysylltiedig;
- **Neuaddau preswyl** ar gyfer hyd at 1,000 o fyfyrwyr;
- **Cyfleuster Profi Defnyddiau ac Ymchwil (SMaRT)**. Fe fydd y ganolfan yn profi defnyddiau newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli ar gyfer Rolls Royce;
- **Canolfan Arloesi a Chyfleuster Gweithgynhyrchu** a fydd yn cydleoli diwydiant ac ymchwil y Coleg Peirianneg;
- **Cyfleusterau addysgu ac ymchwil israddedig** ar gyfer y Coleg Peirianneg a'r Ysgol Busnes ac Economeg.

## Golau newydd ar y Rhyfel Mawr

Ar drothwy canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, mae myfyrwyr cyfrwng Cymraeg o Brifysgol Abertawe wedi codi cwr y llen ar fywydau rhai o'r milwyr a fu'n brwydro.

Y tymor diwethaf, fe fuon nhw'n dilyn modiwl yn dadansoddi tystiolaeth newydd o gasgliadau gwerthfawr pedwar teulu, a hynny er mwyn creu adnoddau newydd i'r cyhoedd a myfyrwyr.

Bu'r myfyrwyr yn digido dros 250 o eitemau a bydd y cyfan yn cael eu cyhoeddi ar wefan Ymchwil Hanes Cymru fydd yn cael ei lansio yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych a'r Cyffiniau eleni.

Un enghraifft oedd tystiolaeth tad y gweinidog a'r darlledwr, Dr R. Alun Evans, a oedd yn fyfyriwr am y weinidogaeth a ymunodd â llu meddygol y fyddin ond, a oedd, erbyn yr Ail Ryfel Byd, yn heddychwr.

Bydd R. Alun Evans yn dweud gair yn ystod lansiad y prosiect ar stondin Prifysgol Abertawe ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol ddydd Llun 5 Awst am 2yp.

"Dyna enghraifft gref o'r Rhyfel Mawr yn dylanwadu ar feddyliau pobl am ddegawdau wedi i'r ymladd ddod i ben," meddai Dr Gethin Matthews, darlithydd gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn Adran Hanes a Chlasuron Prifysgol Abertawe.

"Mae cynulleidfa eang iawn i'r deunyddiau yma – ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol ond hefyd myfyrwyr Lefel A a Phrifysgol.

Y tymor nesaf fe fydd Gethin Matthews yn dysgu modiwl 'Y Rhyfel Mawr trwy lygaid y Cymry' ym Mhrifysgolion Abertawe ac Aberystwyth trwy rwydwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Fe fydd hynny'n cynnwys astudio'r deunydd sydd wedi'i baratoi eleni a rhagflas o gyfrol newydd y bydd Gethin Matthews yn ei chyhoeddi yn 2015 am ddylanwad y Rhyfel ar Gymru.



## Cadair arall i Brifardd

Mae un o feirdd a beirniaid llên amlyca' Cymru wedi ei benodi'n Athro yn Academi Hywel Teifi – ac yntau'n byw o fewn tafliad carreg i'r campws.


Mae penodi Alan Llwyd yn aelod o'r staff ymchwil yn ychwanegu at brofiad ac arbenigedd yr Academi ym maes beirniadaeth lenyddol ac ysgrifennu creadigol.

Fe fydd Alan Llwyd yn cyfrannu'n benodol at ymchwil y Brifysgol ym maes Astudiaethau'r Gymraeg, ac fe fydd yn rhan o dîm ymchwil Astudiaethau Celtaidd y Brifysgol. Yn hyn o beth, bydd yn cyfrannu at waith dysgu a goruchwylio traethodau ymchwil myfyrwyr yr Academi.

Yn ogystal â bod yn fardd a enillodd ddwbl y Gadair a'r Goron ddwywaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol, mae wedi cyhoeddi nifer o gyfrolau pwysig yn y maes, gan gynnwys cofiant uchel ei glod i Kate Roberts ac, eleni, gofiant i R. Williams Parry.

"Mae hi'n fraint ac anrhydedd o'r radd flaenaf," meddai Alan Llwyd, "dw i'n gobeithio y bydd fy nghyfraniad yn y swydd hon yn ystod y blynyddoedd i ddod yn un sylweddol ac arwyddocaol, ac y byddaf, trwy hynny, yn gaffaeliad i Brifysgol Abertawe yn benodol, ac i ysgolheictod Cymraeg yn gyffredinol."

Mae rhagor o gyfrolau pwysig eisoes ar y ffordd ganddo – mae'n paratoi cofiannau i ddau fardd mawr arall, Gwenallt a Waldo Williams ac yn cydweithio gyda Robert Rhys, Darllenydd yn y Gymraeg yn yr Academi, ar olygiad o gerddi Waldo.




## Ysbrydoli menywod yfory

Roedd Diwrnod Rhyngwladol y Merched ym Mhrifysgol Abertawe'n dathlu llwyddiant menywod o Gymru mewn meysydd fel gwyddoniaeth, busnes, darlledu a'r celfyddydau.

Gyda chefnogaeth ariannol gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, trefnwyd cynhadledd undydd gan Academi Hywel Teifi er mwyn dathlu cyfraniadau merched y presennol a'r gorffennol i wahanol feysydd yng Nghymru ac er mwyn ysbrydoli merched ifanc ein hysgolion.

Cafodd y gynhadledd ei hagor gan arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood AC, ac fe gymerodd hi ac arweinwyr benywaidd eraill ran mewn sesiwn cyngor gyfra i ferched chweched dosbarth ysgolion Gyfun Gŵyr, Bryn Tawe, Ystalyfera a Maes yr Yrfa. Roedd cyfle i'r merched dderbyn cyngor un-i-un ar yrfaoedd yn y gwyddorau, y gyfraith, ieithoedd, busnes, gwleidyddiaeth, y celfyddydau gweledol a diwydiant darlledu gyda menywod blaenllaw yn eu meysydd.

Roedd digwyddiadau eraill yn cynnwys:

- Panel dan gadeiryddiaeth yr Archdderwydd Dr Christine James, â'r trafod yn rhoi sylw i rai o arloeswyr y gorffennol gan gynnwys Amy Dillwyn, Winifred Coombe Tennant a Mary Wynne Warner.



- Panel trafod arall yn canolbwyntio ar fenter merched ac annog merched i fynd i fyd busnes gan oresgyn rhwystrau ar ddechrau gyfra ac ymdopi ag ymrwymiadau teuluol wedyn.

"Roedd y gynhadledd yn rhoi cyfle i ni dynnu sylw merched ifanc at gyfraniad menywod sydd wedi cyrraedd y brig yn eu dewis feysydd, menywod sy'n esiampl addas i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o Gymry benywaidd," meddai Non Vaughan Williams, trefnydd y gynhadledd a Darlithydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn Cyfryngau Digidol yn Academi Hywel Teifi.

"Y neges fyd-eang oedd i ni 'feddwl yn rhyngwladol ond i weithredu yn lleol' a dyna wnaethon ni gan geisio sicrhau bod y dyfodol i ferched yn un cyfartal, teg a llawn gobaith."

## Arwain gyda datblygu gyrfaoedd

Mae Prifysgol Abertawe yn gwneud mwy nag erioed i helpu myfyrwyr i ddatblygu eu gyrfaoedd.

Un o'r prif gynlluniau yw'r modiwl profiad gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg – cyfle i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg mewn unrhyw bwnc gael profiad o ddefnyddio'r iaith yn y gwaith. Ac fe fydd y ddarpariaeth newydd o gymorth i fusnesau a chyrff sy'n defnyddio'r Gymraeg hefyd, fel y profodd Gwasg Prifysgol Cymru wrth dderbyn un o fyfyrwyr y modiwl.

"Bu bod ynghlwm â'r modiwl profiad gwaith o fudd mawr i ni fel cyhoeddwr academaidd," meddai Angharad Watkins ar ran y Wasg.

"Rydym bob amser yn ystyried syniadau am gyfrolau newydd ynghyd â ffyrdd o ymestyn ein rhaglen gyhoeddi i feysydd cyffrous ac arloesol ac rydym yn ddiolchgar am y cymorth a dderbynion ni oddi wrth fyfyrwraig ar y modiwl.

"Roedd hi wedi ymchwilio i feysydd newydd, ynghyd â chynorthwyo gyda phrosesau dydd i ddydd yr adran. R'yn ni'n edrych ymlaen at groesawu myfyriwr arall yma yn y dyfodol."

Bu myfyrwyr eraill ar leoliadau gwaith mewn ysgolion lleol, gyda chwmni cynhyrchu Telesgôp ac Adran Farchnata'r Brifysgol.

Mae'r modiwl yn rhan o ddarpariaeth y Brifysgol ar gyfer hybu cyflogadwyedd ein myfyrwyr a'u cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau ar gyfer byd gwaith neu gyrsiau pellach.

Mae Academi Cyflogadwyedd wedi ei sefydlu i gydlynu'r gwaith ar draws y Brifysgol, a'i nod yw herio ein myfyrwyr i greu cyfleoedd i'r dyfodol. Mae'n gwneud hynny drwy hyrwyddo mentrau newydd, arddangos arfer da, darparu cyfleoedd i fyfyrwyr wella eu sgiliau a chofnodi eu cyflawniadau trwy ddefnyddio'r Adroddiad ar Gyflawniad mewn Addysg Uwch (HEAR).

Er mwyn cefnogi'r myfyrwyr ymhellach, mae Hyrwyddwyr Cyflogadwyedd wedi eu penodi ym mhob un o Golegau'r Brifysgol i arwain tîm sydd ar gael i helpu. Mae'r Brifysgol yn hynod falch o'r ffaith fod 93.0% o'n graddedigion mewn gwaith neu'n astudio ymhellach o fewn chwe mis iddynt raddio (data HESA 2011/2012). Ym Mhrifysgol Abertawe cewch agor drws i ddyfodol disglair.



Coleg Cymraeg Cenedlaethol





## Cangen a Gofod dysgu o'r radd flaenaf

Mae ystafell ddysgu aml-bwrpas newydd yn golygu y gall myfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe fanteisio ar weithgareddau mewn sefydliadau eraill.

Mae'r ystafell yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddara'i gysylltu gyda rhwydwaith sefydliadau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae'r ystafell newydd yn rhan allweddol o gynlluniau'r Coleg i greu rhwydwaith o gyfleusterau sy'n ei gwneud hi'n bosib rhannu adnoddau ac arbenigedd ar draws yr holl sefydliadau. Trwy hyn gall myfyrwyr Prifysgol Abertawe gymryd rhan mewn darlithoedd a seminarau mewn prifysgolion eraill ar draws Cymru, tra bod rhwydd hynt i fyfyrwyr mewn sefydliadau addysg uwch eraill fanteisio ar arbenigedd darlithwyr ac ymchwilwyr Abertawe. Mae'r adnodd yn fodd effeithiol o gyfoethogi profiad dysgu myfyrwyr cyfrwng Cymraeg ar draws Cymru.

Ffrwyth buddsoddiad sylweddol gan y Coleg Cymraeg yw'r gofod dysgu hwn, ac fe gafodd ei agor yn swyddogol adeg digwyddiad cynta' Cangen y Coleg yn y Brifysgol.

Fe ddaeth yr anturiaethwraig, Lowri Morgan, i agor yr ystafell cyn siarad gyda myfyrwyr y brifysgol a'u hysbrydoli â straeon am ei champau mewn rhai o ardaloedd mwya' peryglus y byd. Rhoddodd arweiniad iddynt hefyd ar sut i wynebu heriau er mwyn cyflawni uchelgeisiau.

A hithau'n ferch leol o Dregŵyr, ac yn gymrawd er anrhydedd i'r brifysgol, roedd y gyflwynwraig deledu wrth ei bodd yn nodi cam arall yn natblygiad addysg cyfrwng Cymraeg yn Abertawe.

Cafodd yr agoriad ei ddilyn gan gyfarfod cynta' Fforwm Cangen Abertawe o'r Coleg – cyfle i staff a myfyrwyr drafod y ddarpariaeth a rhagor o ddatblygu at y dyfodol.

## Anrhydeddu cyn bennaeth y Brifysgol am roi sylfaen i'r Coleg Cymraeg

Mewn seremoni ym mis Chwefror, cafodd cyn Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe ei wneud yn Gymrodor er Anrhydedd i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Roedd hynny'n gydnabyddiaeth o'i waith allweddol yn rhoi'r Coleg ei hun ar ei draed, yn ogystal ag am ei waith academaidd a'i gyfraniad at gefnogi gwyddoniaeth trwy'r Gymraeg.

Yr Athro Robin Williams oedd Cadeirydd y Bwrdd Cynllunio a lwyddodd i greu fframwaith ar gyfer datblygu'r Coleg a chael cefnogaeth y byd addysg uwch yng Nghymru i'r cynlluniau.

Yn ôl y Coleg, mae rhai o'r elfennau allweddol, fel y Cynllun Staffio Academaidd a'r Cynllun Ysgoloriaethau i Fyfyrwyr, wedi dod yn uniongyrchol o waith y Pwyllgor Cyllunio hwnnw.

Bu Robin Williams, sy'n wreiddiol o ardal Y Bala, yn Is-Ganghellor Prifysgol Abertawe yn ystod cyfnod pwysig yn ei datblygiad, o 1994 i 2003 ac mae'n falch iawn erbyn heddiw o weld cynnydd yn y Gymraeg yno a sefydlu Academi Hywel Teifi.

"Mae Academi Hywel Teifi yn gwneud gwaith ardderchog yn Abertawe ac yn arwain y cynnydd yn y defnydd o'r iaith Gymraeg ar draws y Brifysgol," meddai.

"Mae nifer o ddarlithwyr ifanc o'r safon uchaf wedi cael eu penodi i ddysgu nifer o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae dyfodol yr iaith yn y Brifysgol yn ymddangos yn addawol dros ben."



## Darlithwyr am dorri cwysi newydd yn Abertawe

Fe fydd pedwar darlithydd newydd yn cyfrannu at ddatblygu'r ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn Abertawe gan hyrwyddo defnydd o'r iaith mewn meysydd ymarferol pwysig.

Mae'r pedair swydd yn cael eu cefnogi gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a byddant yn sicrhau ychwanegiadau cyffrous i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y Brifysgol dan arweiniad Academi Hywel Teifi.

Yn ôl Prif Weithredwr y Coleg Cymraeg, fe fyddan nhw hefyd yn gwneud cyfraniad cenedlaethol yn ystod y pum mlynedd nesa'.

"Mae'r Coleg yn croesawu'r cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r datblygiadau cyffrous sy'n digwydd trwy waith Academi Hywel Teifi," meddai Ioan Matthews.

Mae dwy o'r swyddi'n ymwneud â'r maes gofal – un yn datblygu ymchwil ac addysg trwy'r Gymraeg yn y Coleg Meddygaeth a'r llall yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau cymdeithasol.

Fe fydd y Darlithydd Gwyddorau Meddygol, **Heledd Iago**, yn sefydlu modiwlau newydd, gan gynnwys 'Meddygaeth, Cymraeg a Chymreictod', a'r nod yw meithrin hyder mewn myfyrwyr i drafod meddygaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Fe fydd **Delyth Lloyd Griffiths** yn ymuno â'r Coleg Gwyddorau Dynol ac Iechyd er mwyn ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr ym maes gwaith cymdeithasol yn ne-orllewin Cymru, gan dynnu ar ei chefndir sylweddol fel ymarferwr wrth gydweithio'n agos gydag adrannau'r awdurdodau lleol.

Rhoi sgiliau ymarferol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith fydd nod **Iwan Williams** hefyd, sy'n dod at Academi Hywel Teifi ei hun, yn ddarlithydd mewn Cysylltiadau Cyhoeddus.

Mae'n dod â chyfoeth o brofiad ymarferol, ac yntau wedi bod yn bennaeth y Wasg, Cyhoeddiadau ac E-ddemocratiaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd ef a'r darlithwyr astudiaethau cyfryngau yn darparu cwrs gradd Astudiaethau Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus o Fedi 2014 ymlaen – y cwrs cyfrwng Cymraeg cyntaf o'i fath.

Yr iaith ei hun fydd maes y bardd a'r cerddor **Llŷr Gwyn Lewis** wrth iddo gydlynu modiwlau Cymraeg yn yr Academi mewn meysydd megis theori dysgu iaith, dwyieithrwydd a chymdeithaseg a chynllunio iaith.

Hon yw ei swydd gynta' ac yntau'n gorffen doethuriaeth ar waith y beirdd T. Gwynn Jones a W. B. Yeats. Mae hefyd yn cyflwyno'r rhaglen gelfyddydau *Stiwdio* ar Radio Cymru.

Meddai am yr her newydd sydd o'i flaen: "Gan barhau â'r gwaith ardderchog sydd eisoes yn cael ei wneud yn Abertawe o ran dysgu ac ymchwil, fy ngobaith i ydi ehangu'r ddarpariaeth i fyfyrwyr sydd wedi dilyn y Gymraeg fel pwnc ail iaith ac yn dymuno dod yn hyderus ac yn rhugl.

"Trwy gydweithio ag aelodau eraill o staff a myfyrwyr Academi Hywel Teifi a thu hwnt, fy mwriad ydi sicrhau bod dilyn gradd yn y Gymraeg yn brofiad cymdeithasol gwerthfawr yn ogystal â bod yn daith academaidd."

# Gwobr ryngwladol i wyddonydd o Gymraes

Gwobr gan gronfa wyddonol bwysig yw'r llwyddiant diweddara' i Athro ym Mhrifysgol Abertawe sy'n torri tir newydd gyda'i hymchwil i newid hinsawdd.

Ddechrau 2013, fe gafodd yr Athro Siwan Davies o Adran Ddaearyddiaeth y Coleg Gwyddoniaeth Wobr Ymchwil Cronfa Lyell am ei gwaith yn astudio llwch folcanig hynafol er mwyn ceisio deall pam fod yr hinsawdd yn newid.

Mae'r ymchwil o fewn haenau iâ yr Ynys Las eisoes wedi cael sylw byd-eang – fe gafodd ei gyhoeddi yn y cyfnodolyn *Nature* ac fe fu Siwan yn annerch Y Gymdeithas Americaniadd er Hyrwyddo Gwyddoniaeth yn Boston. Arweiniodd hynny yn ei dro at straeon mewn papurau newydd safonol a hyd yn oed ar wefan wyddonol yn China.



"Dw i wrth fy modd yn derbyn y wobr," meddai Siwan Davies, un o do newydd o wyddonwyr Cymraeg yn Abertawe. "Mae'n anrhydedd o'r mwyaf ac yn gydnabyddiaeth o waith fy nhîm ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe" Roedd ei gwaith ymchwil yn yr Ynys Las yn golygu drilio i grombil y llen iâ a chodi colofn dros 2500 o fetrau o hyd er mwyn dod o hyd i lwch llosgfynyddoedd a ffrwydrodd ddegau o filoedd o flynyddoedd yn ôl.

Trwy hynny, mae hi'n ceisio dehongli ymateb y môr a'r atmosffer ar y pryd a chael cliwiau am y rhesymau tros newid hinsawdd sydyn.

Mae Siwan yn arwain y gwaith hwn fel rhan o brosiect ymchwil gwerth £1.2 miliwn – gydag arian gan y Cyngor Ymchwil Ewropeaidd i noddi'r academyddion mwya' addawol.

Mae cyfle i wylwyr S4C weld Siwan Davies ar waith wrth iddi gyfrannu at y gyfres wyddonol newydd, *Dibendraw*.

Fe aeth gyda chwmni teledu Telesgôp – dan arweiniad cyn fyfyrwraig Biocemeg Prifysgol Abertawe, Elin Rhys – i godi samplau o wely Llyn Llech Owain yng Nghwm Gwendraeth.

"Mae mwd ar wely'r llyn yn ffenest i newid hinsawdd y gorffennol," meddai.



# Abertawe'n creu tipyn o WyddonLe

Am y drydedd flwyddyn yn olynol, fe fu Prifysgol Abertawe'n helpu i ysbrydoli siaradwyr Cymraeg ifanc i fentro i faes gwyddoniaeth a thechnoleg.

Y Brifysgol oedd yn noddi a threfnu'r gweithgareddau yn y GwyddonLe ar faes Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Benfro ac, unwaith eto, roedd yn un o'r atyniadau mwya' poblogaidd ar y maes gyda dros 15,000 o ymwelwyr yn taro heibio'r stondin.

Cafodd plant a phobl ifanc gyfle i gymryd rhan mewn pob math o weithgareddau yn amrywio o chwilio am ffosilau mewn cerrig i greu Apiau gyda S4C a Big Learning Company, ac o weld a chyffwrdd pysgod amrywiol i ddeall mwy am sut mae'r corff yn gweithio.

Roedd sioeau llawn cyffro hefyd yn dangos cymaint o hwyl yw arbrofion ffiseg a chemeg a chynhaliwyd helfa drysor yn defnyddio offer GPS.

Bu sesiwn hefyd ar sut i greu rhaglen radio gyda Magi Dodd, cyflwynydd C2 ar Radio Cymru, yn beirniadu'r gystadleuaeth. Cafwyd hefyd sgwrs am lwybrau gyrfaol mewn meddygaeth gan yr Athro Julian Hopkin, y gŵr a sefydlodd Goleg Meddygaeth y Brifysgol.

Wyn Davies, y fferyllydd sydd bellach yn canu'n broffesiynol gyda chôr Only Men Aloud ac sy'n cyflwyno'r rhaglen *Wyn ar Wyddoniaeth* ar Radio Cymru, oedd yn gyfrifol am agor y GwyddonLe eleni.

"Mae Eisteddfod yr Urdd, ochr yn ochr â gwyddoniaeth, wedi chwarae rhan flaenllaw yn fy natblygiad i yn bersonol ac yn broffesiynol," meddai ar ddechrau'r wythnos.

Ymhlith y sylwadau a dderbyniwyd gan ymwelwyr i'r GwyddonLe roedd 'Arddangosfa ddiddorol sydd yn apelio at bob oedran. Grêt!' ac 'Ardderchog! Y babell orau ar y maes!'. Roedd hyd yn oed Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones AC, wedi'i fodloni gan yr hyn a welodd wrth iddo nodi 'Diddorol dros ben. Ardderchog i blant.'





# Dysgwraig yn diolch cyn rownd derfynol

Mae Canolfan Cymraeg i Oedolion De-orllewin Cymru wedi helpu mam o Gwm Gwendraeth i gyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Mae Kathleen Isaac wedi dilyn pedwar cwrs i gyd yn y Ganolfan, sy'n rhan o Academi Hywel Teifi.

Dim ond ers 2010 y mae Kathleen Isaac yn dysgu ond mae llawer o'r clod am ei llwyddiant i'w thiwtoriaid, meddai.

"Beth sy'n arbennig am athrawon y Ganolfan yn Abertawe yw bod e'n fwy na swydd iddyn nhw - maen nhw eisiau dangos bywyd Cymraeg i ni.

"Mae'r Ganolfan hefyd yn cynnwys trefnwyr sy'n trefnu pethau tu fas i'r dosbarth, sy'n bwysig iawn i ni allu defnyddio'r iaith yn gymdeithasol."

Ac awydd i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i theulu ei hun oedd yr ysgogiad mawr cynta' iddi.

"Mae fy mhartner a'i deulu yn siarad Cymraeg ac mae'r iaith yn bwysig iddyn nhw," meddai Kathleen Isaac sy'n wreiddiol o Abertawe. "Yna, pan gafodd y plant eu geni, roeddwn i eisiau dysgu tamed bach i'w helpu gyda gwaith cartref.

"Ond unwaith wnes i ddechrau, wnes i ddarganfod bod hanes a thraddodiad gyda fi a bod bywyd Cymraeg i gael yng Nghymru ac, i ddechrau, rodd e'n sioc darganfod y peth.

"Fydden i'n dweud celwydd os fydden i'n dweud ei bod hi'n rhwydd. Mae hi wedi bod yn anodd a fi'n teimlo'n ddihyder amdano fe weithie ond rhaid cadw ato fe a chadw ymlaen i ddysgu."

Beth bynnag sy'n digwydd yn rownd derfynol Dysgwr y Flwyddyn, mae Kathleen yn bwriadu parhau i ddilyn cyrsiau Cymraeg yn y dyfodol.

"Fi'n bendant yn mynd i wneud rhywbeth gyda'r Gymraeg am weddill fy mywyd a fi eisie rhoi cefnogaeth i eraill sy'n dysgu'r iaith.

"Mae pobl yn hapus iawn bod rhywun wedi bod yn llwyddiannus wrth ddysgu'r iaith ac mae'r gymuned yng Nghwm Gwendraeth wedi bod yn arbennig yn rhoi shwt gymaint o gefnogaeth i fi hefyd."





# Cyrsiau'n rhoi blas o'r Brifysgol

Mae cwrs preswyl newydd ac ysgol haf sy'n mynd o nerth i nerth wedi denu disgyblion ysgol o bob rhan o Gymru i gael blas o fywyd prifysgol a chymorth ychwanegol gwerthfawr ym maes iaith.

Daeth hyd at 70 o ddisgyblion i'r ddau gwrs deuddydd a oedd wedi eu trefnu gan Academi Hywel Teifi gyda nawdd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Roedd Cwrs Preswyl Cymraeg Ail Iaith wedi denu 40 o ddisgyblion sy'n astudio Cymraeg Ail Iaith at Lefel A. Cafodd y myfyrwyr hyn arweiniad a gwersi gan nifer o ddarlithwyr o sefydliadau addysg uwch a phellach Cymru, gan gynnwys Dr Angharad Naylor o Brifysgol Caerdydd, Linda Sidgwick o Brifysgol Abertawe a Dr Nia Cole Jones o Goleg Sir Gâr.

Ar ôl cael eu hysbrydoli gan y cwrs, roedd mwy na'u hanner yn dweud eu bod yn ystyried gwneud cwrs gradd Cymraeg.

"Fe wnaeth y cwrs roi cyfle gwych i mi ymarfer y Gymraeg gan mai Saesneg yw iaith fy nghartref," meddai Kayleigh Jones o Goleg Gŵyr Abertawe. "Wnes i fwynhau crwydro'r campws a chwrdd â siaradwyr ail iaith eraill. Rwy'n gobeithio cael lle ym Mhrifysgol Abertawe i astudio Cymraeg!"

Yn awr mae Dr Rhian Jones, cydlynydd y cwrs ar ran Academi Hywel Teifi, yn gobeithio y bydd yn datblygu'n ddigwyddiad blynyddol.

Mae hynny eisoes wedi digwydd gyda'r Ysgol Haf Ieithoedd Modern a oedd ar ei phedwaredd blwyddyn eleni.

Yn ôl rheolydd y prosiect, Dr Geraldine Lublin, mae'r ysgol yn mynd o nerth i nerth gyda 26 o ddisgyblion o 12 ysgol wahanol wedi mynychu eleni.

"Yn ogystal â sesiynau cyfieithu ar y pryd a sgwrs ar fanteision astudio ieithoedd yn y Brifysgol, roedden ni hefyd yn darparu sesiynau llafar gyda siaradwyr iaith gyntaf," meddai Dr Geraldine Lublin sy'n dod o Buenos Aires yn wreiddiol ac yn ddarlithydd Sbaeneg trwy gyfrwng y Gymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Yn ogystal â thrafod eu pynciau, roedd y ddau gwrs hefyd yn rhoi cyfle i'r disgyblion aros ar y campws a chael profiad o fywyd myfyrwyr.

# Ap i roi gofal trwy'r Gymraeg

Fe fydd hi'n haws nag erioed i nyrsys a gofalwyr gynnig gwasanaeth trwy'r Gymraeg, diolch i Ap newydd sydd wedi'i ddatblygu ym Mhrifysgol Abertawe.

Trwy gydweithio rhwng Academi Hywel Teifi a'r Ysgol Gwyddor Iechyd, mae llyfryn llwyddiannus bellach wedi ei droi'n rhaglen hylaw ar gyfer ffônau symudol ac i-ddyfeisiadau eraill.

Mae grant gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi helpu i dalu am yr Ap sy'n cael ei lansio ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych.

Y nod yw helpu gweithwyr proffesiynol sy'n gofalu am siaradwyr Cymraeg ac sydd eisiau gallu cyfathrebu gyda nhw yn yr iaith.

**Mae'n gallu:**

- rhoi hyder i ddysgwyr a gweithwyr sy'n llai sicr o'u Cymraeg.
- gwneud yn siŵr fod gweithwyr yn defnyddio'r termau clinigol cywir.
- helpu gofalwyr di-Gymraeg i ddefnyddio ychydig eiriau a chyfarchion – gydag opsiwn i ddangos y cyfieithiad Saesneg.




Llais y gyflwynwraig deledu, Nia Parry, sydd wedi troi'r llyfryn 'Gofal Trwy'r Gymraeg' yn ddyfais ddigidol sy'n gallu cael ei defnyddio'n hawdd pan fydd gofalwyr wrth eu gwaith. Gofalwyr a awgrymodd y syniad, gan fod llais hefyd yn rhoi'r ynganiad cywir i ddefnyddiwr yn ogystal â'r geiriau a'r termau.

"Mae gallu cyfathrebu gyda chleifion yn Gymraeg yn bwysig," meddai Dr Angharad Jones. "Mae'n golygu eu bod nhw'n fwy cartrefol, yn enwedig pobl oedrannus sy'n troi'n ôl at eu mamiaith."

Mae modd lawrlwytho'r ap **'Gofalu trwy'r Gymraeg'** am ddim o iTunes



# Pow Wow a rhannu profiad

## Criw o'r Academi yn ymweld â'r Cherokee

Fe gafodd criw o Academi Hywel Teifi eu syfrdanu o weld y tebygrwydd rhwng iaith leiafrifol arall a'r Gymraeg.

Nid un o ieithoedd bach eraill Ewrop oedd hon ond iaith y Cherokee, un o lwythau brodorol yr Unol Daleithiau, a chafodd criw o bump o fyfyrwyr a staff Prifysgol Abertawe gyfle i ymweld â nhw.

Yn ystod gwyliau'r Pasg aeth y pump i dreulio pythefnos yng nghwmni'r Cherokee ym Mhrifysgol Northeastern State yn nhalaith Oklahoma.

Mae cysylltiad ers blynyddoedd rhwng y brifysgol Americanaidd a Phrifysgol Abertawe a hwnnw wedi ei gryfhau ymhellach gan yr ymweliad.

Y nod oedd cymharu'r ddwy genedl hynafol, i gyfnewid syniadau a rhannu profiadau o fyw mewn cenedl fach a brwydro i gynnal iaith.

Yn debyg i Gymru, mae yna ymdrech gref i ddiogelu ac adfywio iaith y Cherokee ac roedd y rhaglen yn cynnwys darlithoedd gan staff Prifysgol Northeastern State ar hanes, diwylliant, llenyddiaeth a thraddodiadau Cenedl y Cherokee a llwythi brodorol Americanaidd eraill. Cafodd y criw gyfle hefyd i ddysgu rhywfaint ar iaith y Cherokee a mynychu ysgol gynradd y llwyth a chyfnewid gwersi a phrofiadau gyda'r plant.



"Fe gawson ni ein synnu gan faint y tebygrwydd oedd rhwng y gorthrwm a'r ffordd y mae'r ddwy iaith wedi cael eu trin yn y gorffennol," meddai Branwen Lloyd o'r Academi, trefnydd y daith.

"O ran yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni yno, maen nhw'r un lle ag oedden ni 50 mlynedd yn ôl ac fe wnaeth i ni werthfawrogi faint o adnoddau a chefnogaeth sydd gyda ni yma yng Nghymru."

Y gobaith yw y bydd rhai myfyrwyr Cherokee o'r brifysgol yn gallu dod draw y flwyddyn nesa' ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Llanelli.

Yn ystod y daith eleni, mynychodd y myfyrwyr o Gymru symposiwm blynyddol yr Americanwyr brodorol, a hwnnw'n gorffen gyda Pow Wow traddodiadol – cystadlaethau a gŵyl ddawnsio liwgar.

## Profiad bythgofiadwy, meddai Heulwen Beasley

"Roedd e'n brofiad bythgofiadwy," meddai Heulwen Beasley, myfyrwraig sydd newydd raddio yr haf hwn o Brifysgol Abertawe.

"Doeddwn i ddim yn gwybod braidd dim am draddodiad ac iaith y Cherokee a dyna'r rheswm o'n i wir moyn mynd mas.

"Ro'n i'n astudio Sbaeneg a Ffrangeg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn Abertawe ond roedd eu hiaith nhw'n hollol wahanol.

"Doedd dim lot o adnoddau ganddyn nhw – dim llyfrau, y we na cryno ddisgiau – ond roedd yr athrawon yn frwdfrydig iawn ac roedd hynny'n wych i'w weld."

"Ond y Pow Wow oedd yr uchafbwynt. Fi erioed wedi gweld rhywbeth felly o'r blaen. Roedd yna elfennau tebyg i'r Eisteddfod iddi gyda gwisgoedd anhygoel a theimlad teuluol.

"Y peth pwysicaf yw eu bod nhw'n dal i wneud hynny heddi er gwaetha'r gorthrwm."




# Ysgoloriaeth ryngwladol newydd yn enw un o fawrion y gofod

Pam fod mwy o luniau o'r gofod o Gymru nag o'r un wlad arall debyg?

Dyna oedd un o'r cwestiynau a gafodd ei ateb wrth i gyn Gyfarwyddwr Hediadau NASA, George W.S. Abbey Snr, ddod i Brifysgol Abertawe i gyflwyno Darlith Richard Burton.

Mae cronfa newydd hefyd wedi ei sefydlu yn enw George Abbey, gan roi'r cyfle i fyfyrwyr o Brifysgol Abertawe a sefydliadau addysg uwch yn Texas i fynd ar deithiau cyfnewid.

Fe fu George Abbey'n gweithio gyda NASA am fwy na 30 mlynedd, gan gynnwys ar raglenni Apollo a'r wennol ofod. Mae bellach yn Gymrawd Hŷn mewn Polisi'r Gofod yn Sefydliad Baker ym Mhrifysgol Rice yn Houston, Texas.

Yn ogystal â gwyddoniaeth a pheirianneg, fe fydd pynciau'r teithiau cyfnewid hefyd yn cynnwys Astudiaethau Celtaidd, un arall o ddiddordebau George Abbey, sy'n Gymrawd Anrhydeddus o Brifysgol Abertawe.

"Mae cysylltiadau George Abbey â Chymru, a'i gariad tuag at Dalacharn, man geni ei fam, yn adnabyddus," meddai Canghellor Prifysgol Abertawe, cyn Brif Weinidog Cymru Rhodri Morgan, wrth lansio'r Gronfa yng nghanolfan NASA yn Texas.

"Fe drefnodd, unwaith, i weithiau Dylan Thomas gael eu cludo i'r gofod, ac roedd yn arfer gofyn i ofodwyr dynnu lluniau o Gymru o'r gofod!

"Fe fydd y gronfa hon yn golygu y bydd ei etifeddiaeth yn cael ei hanrhydeddu gan Brifysgol Abertawe."




## A'r ddarlith ...

Am y tro cynta', nid anerchiad ffurfiol oedd Darlith Richard Burton eleni – fe gafodd George Abbey ei holi gan yr Athro Daniel Williams, Cyfarwyddwr Canolfan Astudiaethau Cymreig Richard Burton. Cafwyd hefyd ddarlleniad gan Gymrawd Cronfa Lenyddol Frenhinol y Brifysgol, y Prifardd Gwyneth Lewis, sy'n gyfnither i ofodwr a deithiodd yn y wennol Discovery ac a ysgrifennodd gerddi am deithio yn y gofod.

Teitl y sgwrs oedd 'Cymru, America a'r Ras i'r Gofod' a bu George Abbey'n trafod y glaniadau ar wyneb y lleuad, prosiect y Wennol Ofod ac yn cynnig esboniad am y lluniau o Gymru o'r gofod.

# Y Llewod, yr athletwraig a chynnydd i'r Gymraeg


Llun: S4C

Roedd gan Brifysgol Abertawe ran ym muddugoliaeth hanesyddol tîm rygbi'r Llewod ac mae peth o'r arbenigedd hwnnw ar gael i fyfyrwyr sydd am astudio Gwyddor Chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'n rhan o ddatblygiad newydd yn y maes, gydag athletwraig ryngwladol a chyflwynydd teledu yn arwain y gwaith.

Meddalwedd sydd wedi ei datblygu gan beirianwyr y Brifysgol oedd yn cael ei defnyddio gan Warren Gatland a'i hyfforddwyr i ddadansoddi sut yr oedd y gêmau yn Awstralia'n mynd.

Mae'r adran Gwyddor Chwaraeon yn rhan o'r Coleg Peirianneg, sy'n golygu bod pwyslais arbennig ar ddefnydd o gyfrifiaduron a thechnoleg yn y maes.

"R'yn ni wedi helpu mewn ffordd fach efallai," meddai Dr Iwan Griffiths, un o'r darlithwyr yn yr adran sydd newydd drefnu modiwl Cymraeg yn yr union faes – ymchwil.

Mae'n faes sy'n tyfu, meddai, wrth i chwaraeon fynd yn fwy soffistigedig ac roedd y feddalwedd wedi'i chreu gan gwmni Sportsviz Wales sydd wedi deillio o'r Brifysgol.

O ran addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r flwyddyn nesa'n addo i fod yn well fyth, gyda chynnydd yn y ddarpariaeth Gwyddor Chwaraeon a digon o sylw i'r hyn sydd ar gael.

Yr athletwraig Anwen Rees – cyflwynydd y rhaglen deledu boblogaidd, **Corff Cymru** – sy'n annog y datblygiad.

Mae hi'n gweithio'n bennaf ym Mhrifysgol Fetropolitaidd Caerdydd ac wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg yno – yn awr, mae'n gweithio ddiwrnod yr wythnos yn Abertawe, gan geisio gwneud yr un peth.

O fis Medi ymlaen, fe fydd nifer o fodiwlau Cymraeg ar gael, yn ogystal â'r cyfle i gael tiwtorialau yn Gymraeg a chyflwyno traethodau a gwaith ymchwil yn yr iaith.

"Fe fyddwn ni'n adeiladu'r ddarpariaeth o flwyddyn i flwyddyn," meddai Anwen, sy'n rhedwraig ryngwladol tros y clwydi ond sydd bellach yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau pobl eraill.

Roedd cyflwyno **Corff Cymru** hefyd yn brofiad gwerthfawr, meddai, a hithau'n gorfod gwthio'i chorff trwy bob math o brofion a sialensiau, o fod mewn oergell i sawna lle'r oedd y tymheredd yn 40 gradd Celsius.

"Y nod oedd dangos o ble daeth y Cymry a pham ein bod ni fel yr 'yn ni," meddai Anwen. "Fe ddysgais i lawer am fy nghorff fy hun."

Ac fe welodd hi feddalwedd y Brifysgol yn gweithio hefyd – roedd hi yn Awstralia i weld y prawf ola' hanesyddol.

# Un o fois yr Academi'n arwain Abertawe i'r brig

Mae capten tîm rygbi'r Brifysgol wedi canmol dycnwch, disgyblaeth a ffocws chwaraewyr rygbi Prifysgol Abertawe, wedi iddyn nhw drechu Caerdydd yng ngêm flynyddol Varsity Cymru yn Stadiwm y Mileniwm.

Fe lwyddon nhw i guro'r hen elyn o 21-13 ar ôl hanner cynta' caled ac roedd llawer o'r clod i ysbrydoliaeth y capten, Jonathon Vaughan, un o raddedigion Academi Hywel Teifi.

"Roedd gyda'r tîm y cymeriad a'r cryfder i ddal gafael yn y gêm, ac ro'n i'n browd iawn ohonyn nhw," meddai Jonathon Vaughan.

"Hanner amser oedd y trobwynt, does dim amheuaeth. Fe wnaethon ni jyst benderfynu cadw at yr hyn oedden ni wedi ei ymarfer, ac fe ddwedon ni wrthon ni'n hunain mai dim ond deg pwynt ar ei hôl hi oedden ni."

Gyda tô Stadiwm y Mileniwm ynghau, a byddin gwyn a gwyrdd Abertawe yn uchel eu croch, fe lwyddodd y bechgyn i sicrhau'r unfed ar ddeg buddugoliaeth i Abertawe ers 1997 gan ddod â diwrnod prysur o gystadlu rhwng y ddwy brifysgol i ben.

Fe gyflwynwyd eu capiau i chwaraewyr Abertawe gan Paul Thorburn, cadeirydd Varsity Cymru, ac un o gyn-fyfyrwyr y Brifysgol a ddisgrifiodd ei gyfnod yn astudio yn Abertawe fel cam pwysig yn ei yrfa rygbi.

